## Diweddariad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor – Blwyddyn 1 (2017-18)

| Cam Gweithredu | Polisi | Nodau | Gweithgarwch | Targed erbyn 2021 | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.1* | **Cymraeg i Oedolion** | Cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg | Cynyddu gweithgarwch marchnata ac ymestyn nifer y cyrsiau sydd ar gael ar bob lefel | Cynyddu nifer y cofrestriadau gan 20% | Dysgu Cymraeg yn y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Cynyddodd nifer y cofrestriadau oedolion yn dysgu Cymraeg gan 40% yn 2017. |
| *1.2* | | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud i lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch | Rhoi cymorth a chanllawiau wedi'u targedu i annog dysgwyr i symud i lefel uwch o ruglder | Cynyddu cyfraddau symud ymlaen gan 20% | Dysgu Cymraeg yn y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Nifer y dysgwyr ar gyrsiau Uwch a Rhuglder wedi cynyddu i 54 yn 2017-18 o 51 yn 2016-17. Doedd yna ddim cyrsiau lefel Rhuglder gynt. |
| *1.3* | | Darparu mwy o gyrsiau iaith yn y gweithle ar amryw lefelau hyfedredd i alluogi mwy o gyflogeion i weithio'n ddwyieithog | Gwella darpariaeth yn y gweithle yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i ddechreuwyr a phobl sy'n dechrau dysgu Cymraeg | Cynyddu darpariaeth yn y gweithle gan 100% | Dysgu Cymraeg yn y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Dyfarnwyd lle ar fframwaith Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i DCyyF yn 2017 mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae DCyyF yn hyfforddi 80 o gyflogeion Cyngor y Fro ar gyrsiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion yn 2017-18. |
| *1.4* | | Rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg gwrdd ac | Trefnu gweithgareddau cymdeithasol a | Sefydlu 4 lleoliad yn yr ardal i gynnal cyfleoedd | Dysgu Cymraeg yn y Fro; Menter Bro Morgannwg | Mae DCyyF yn trefnu digwyddiadau rheolaidd i ddysgwyr a siaradwyr |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymarfer eu sgiliau iaith | 'sesiynau sgwrs' i wella hyder a lefelau hyfedredd | wythnosol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol | | rhugl at ei gilydd gan gynnwys dathliadau tymhorol ac Ysgolion Sadwrn. Mae Menter Bro Morgannwg wedi cynnal sesiynau sgwrsio yn Foxy's Deli (Penarth), Academy Espresso Bar (Y Barri), Gwesty'r Bear (Y Bont-faen) a Café Velo (Llanilltud Fawr). Mae Menter Bro Morgannwg hefyd yn cynnal sesiynau gyda'r nos yn yr Old Swan Inn (Llanilltud Fawr). |
| *1.5* | | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg integreiddio i rwydweithiau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith | Cynllunio rhaglen gweithgareddau cymdeithasol amrywiol i ddod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd | Llunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau gan roi cymorth marchnata | Dysgu Cymraeg yn y Fro;<br>Menter Bro Morgannwg | Gyda gwaith partneriaeth rhwng Cymrodorion y Barri a DCyyF, cynyddodd nifer y dysgwyr lefel uwch a fynychodd gyfarfodydd y Cymrodorion yn sylweddol yn Hydref 2017. Trefnwyd digwyddiadau ar y cyd gan gynnwys Noson Lawen. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Menter Bro Morgannwg wedi cynnal 3 Chwis Tafarn, 4 Gig Bach y Fro gyda'r nos, yn denu siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr.<br>Mae pob un o weithgareddau / cyrsiau'r Fenter i oedolion ac yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cael eu cynllunio a'u hyrwyddo'n glir i fod yn addas i ddysgwyr ar bob lefel yn ogystal â siaradwyr rhugl er mwyn annog y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. |
| *1.6* | | Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd | Trefnu cyrsiau i deuluoedd lle gall oedolion a phlant fwynhau gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu iaith | Trefnu cyrsiau iaith teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol | Dysgu Cymraeg yn y Fro; | Dyfarnwyd Grant Arloesol i DCyyF gan CDCG i dreuliau Clwb Gwaith Cartref i deuluoedd a phlant mewn ysgolion Cymraeg, yn ystod 2018. |
| *1.7* | | Rhoi cyfleoedd ar-lein i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu Cymraeg | Sefydlu ystafell sgwrsio/fforwm ar-lein i ddysgwyr Cymraeg yn yr ardal | I'w sefydlu erbyn mis Medi 2017 | Dysgu Cymraeg yn y Fro;<br>Canolfan Genedlaethol | Ffrydiau DCyyF Facebook a Twitter yn cynyddu defnydd gan ddysgwyr a'r sefydliad er mwyn rhannu gwybodaeth am gyrsiau a digwyddiadau, cyfleoedd a sgwrsio ac ati. DCyyF yn rhannu gwybodaeth gan sefydliadau partner a darparwyr Cymraeg eraill gan gynnwys Menter Bro Morgannwg a Chyngor y Fro. |
| | | | | | | |
| *2.1* | **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu | Trefnu sesiynau amser stori yn | Sefydlu sesiynau amser stori ym | Cyngor Bro Morgannwg;<br>Menter Bro Morgannwg | Mae Menter Bro Morgannwg yn cynnal 4 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymraeg gyda'i gilydd | Gymraeg mewn amryw leoliadau yn y Fro, yn arbennig mewn llyfrgelloedd | mhob un o'r prif drefi a'u cynnwys mewn darpariaeth prif ffrwd | | sesiwn Amser Stori wythnosol – yn llyfrgelloedd Penarth, Y Barri, y Bont-faen a Llanilltud Fawr. |
| *2.2* | | Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ysgolion i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned | Llunio strategaeth ar y cyd sy'n galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden | Cyhoeddi'r strategaeth ar y cyd erbyn mis Hydref 2017 | Gwasanaeth Ieuenctid y Fro;<br>Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc;<br>Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru; | Gweler isod. |
| *2.3* | | Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg i blant oedran cynradd | Trefnu cyfres o weithgareddau hamdden at amryw ddiddordebau e.e. chwaraeon, drama, dawns, celf a chrefft, gemau cyfrifiadur, gweithgareddau awyr agored ac ati | Rhaglen i'w chytuno arni a'i gweithred erbyn Medi 2017 | Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Gwasanaethau Hamdden Bro Morgannwg | Mae Menter Bro Morgannwg, mewn partneriaeth ag Adran Chwaraeon yr Urdd, yn cynnal 10 clwb wythnosol i blant ysgol gynradd. Yn eu plith mae gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Penarth, Canolfan Hamdden y Barri a Neuadd Hebron, clwb gymnasteg, athletau, pêl-rwyd a nifer o sesiynau aml-chwaraeon ar ôl ysgol. |
| *2.4* | | Rhoi cymorth i rieni â phlant mewn ysgolion Cymraeg i leddfu | Sefydlu Clybiau Gwaith cartref mewn ysgolion Cymraeg | Trafodaethau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn | Ysgolion Cynradd Cymraeg;<br>Ysgol Gymraeg Bro | Mae DCyyF yn sefydlu clwb gwaith cartref mewn partneriaeth â'r |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | pryderon am helpu gyda gwaith cartref | neu Ganolfannau Cymunedol i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg | academaidd bresennol gyda bwriad i sefydlu Clybiau Gwaith Cartref erbyn Medi 2018. | Morgannwg;<br>Dysgu Cymraeg yn y Fro | Urdd, Menter Bro Morgannwg a'r Mudiad Meithrin, i'w dreialu yn nhymor yr haf 2018. |
| *2.5* | | Annog mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | Yr ysgol i gytuno ar Ddatganiad Cenhadaeth a'r cod ymddygiad a sefydlu Fforwm Defnydd Iaith | Fforwm Defnydd Iaith i gynnwys cynrychiolwyr o bob blwyddyn ysgol i'w sefydlu erbyn Medi 2017 | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; | Trefnwyd cyfarfodydd â'r adran Dysgu a Sgiliau i gydlynu fel rhan o waith y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg. |
| *2.6* | | Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned | Sefydlu Fforwm Pobl Ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a'i gefnogi i drefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol | Trefnu o leiaf 3 gweithgaredd Cymraeg arwyddocaol yn ystod pob blwyddyn ysgol | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru | Trefnwyd cyfarfodydd â'r adran Dysgu a Sgiliau i gydlynu fel rhan o waith y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg. |
| *2.7* | | Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cefnogi'r clwb ieuenctid Cymraeg yng Nghanolfan Palmerston, y Barri ac ystyried y posibiliad o sefydlu darpariaeth debyg yn rhywle arall | Ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnwys Penarth a'r Bont-faen | Cyngor Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru | Gweler 2.3 |
| *2.8* | | Rhannu gwybodaeth â phobl ifanc am gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau sy'n | Sicrhau bod gan Gyrfa Cymru a gofalwyr mewn ysgolion y | Gyrfa Cymru, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd | Gyrfa Cymru;<br>Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro; | Ariannwyd swyddog busnes gan Lywodraeth Cymru tan fis Gorffennaf. Cynhelir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gofyn am sgiliau dwyieithog | wybodaeth ddiweddaraf am swyddi sy'n gofyn am allu yn y Gymraeg a rhannu'r wybodaeth hon â phobl ifanc | a'r Fro i gytuno ar gynllun gweithredu erbyn Medi 2017 a dyfeisio ffyrdd arloesol o roi gwybodaeth drwy appiau a'r cyfryngau cymdeithasol | | cyfarfodydd pellach. |
| *2.9* | | Defnyddio technoleg gyfathrebu i hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog | Creu gwefan benodedig, app a chyfeirlyfr i hysbysebu swyddi a phrentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg | Sefydlu Hyb rhannu gwybodaeth i brif gyflogwyr yr ardal y gellir ei ddefnyddio i recriwtio staff a phrentisiaid dwyieithog | Gyrfa Cymru;<br>AALl;<br>Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro; | Fel uchod |
| *2.10* | | Cefnogi datblygiad gofal plant yn y Gymraeg | Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant rhieni gyda phlant mewn addysg Gymraeg | Cefnogi datblygiad gofal plant ar ôl ysgol a chofleidiol lle nodir anghenion. | Menter Bro Morgannwg; PPPI; Cyngor Bro Morgannwg | Ysgolion wedi cysylltu â Menter Bro Morgannwg. Cyllid yw'r broblem. Cyfarfod i'w gynnal yn fuan fel rhan o 2.12 |
| *2.11* | | Cefnogi datblygiad cyfleoedd gofal plant Cymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol | Parhau â chynlluniau chwarae Cymraeg dros wyliau'r ysgol | Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu cynlluniau chwarae gan 100% | Menter Bro Morgannwg;<br>CYPP;<br>Cyngor Bro Morgannwg | Darparwyd Cynllun Gofal Bro Morgannwg ar safle Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ers Chwefror 2015 ac mae'n mynd o nerth i nerth Mae'r ddarpariaeth ar gael i bob plentyn sy'n cael addysg gynradd Gymraeg yn y Fro, ac fe'i rhoddir yn ystod pob |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gwyliau ysgol, ac eithrio'r Nadolig. Hon yw'r unig ddarpariaeth gofal diwrnod llawn yn Gymraeg ym Mro Morgannwg ac felly mae'n cynnig cyfleoedd hanfodol i rieni barhau i weithio ac i blant barhau i ddefnyddio ac arfer eu Cymraeg y tu allan i dymor yr ysgol. Mae dros 600 o blant yn mynychu darpariaeth Gofal Gwyliau yn 2017.<br><br>Yn ystod gwyliau'r Haf yn 2017, cynhaliodd Menter Bro Morgannwg hefyd 30 o sesiynau chwaraeon – 'BWRLWM' mewn parciau a lleoliadau allanol Cynigiwyd y sesiynau chwaraeon hyn am ddim gyda thros 230 o blant yn mynychu o leiaf un sesiwn dros y cyfnod, ac ar gyfartaledd 37 o blant ymhob sesiwn. |
| *2.12* | | Darparu gofal dydd yn Gymraeg | Cynnal astudiaeth o ddichonoldeb i ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu darpariaeth gofal dydd Gymraeg yn y Fro | Cwblhau astudiaeth o ddichonoldeb erbyn Mawrth 2017 | Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg | Yn Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018, cynhaliodd Menter Bro Morgannwg ymgynghoriad i fesur y galw am Feithrinfeydd Cymraeg ar safle Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn y Barri. O |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ganlyniad i'r Asesiad o anghenion hwn lluniwyd adroddiad gan y Fenter a chynhelir cyfarfod ym mis Ebrill ymhlith y partïon â diddordeb. |
| *2.13* | | Cynyddu nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n darparu ar gyfer diddordebau teuluoedd | Adeiladu ar lwyddiant Gŵyl Fach y Fro a threfnu digwyddiadau tebyg i gyd-daro â dathliadau'r Nadolig, Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi | Trefnu 3 diwrnod hwyl teuluol yn ystod y flwyddyn mewn rhannau gwahanol o'r sir a chynyddu nifer y fynychwyr i Ŵyl Fach y Fro i 3,000 | Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Dysgu Cymraeg yn y Fro;<br>Cyngor Bro Morgannwg; | Mae DCyyF yn trefnu digwyddiadau i ddathlu'r Nadolig, Dydd Santes Dwynwen, y Flwyddyn Newydd Geltaidd a Dydd Gŵyl Dewi bob blwyddyn, gyda nifer gynyddol o bobl yn dod. Mae Gŵyl Fach y Fro'n mynd o nerth i nerth bob blwyddyn. Mae gan y digwyddiad gerddoriaeth fyw gan artistiaid amlwg yn y sîn roc Gymraeg, perfformiadau gan ddisgyblion ysgol leol, adloniant stryd, stondinau crefft, bwyd a diod, ardal chwarae a gweithgareddau chwaraeon. Gŵyl Fach y Fro 2017 oedd y fwyaf llwyddiannus hyd yma gyda thros 6,500 o bobl yn mynychu'r llynedd – cynnydd o dros 100% oddi ar y flwyddyn flaenorol.<br>Mae'r Fenter yn dal i gydweithio'n agos â Swyddog Digwyddiadau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Bro Morgannwg ac mae trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt â'r Cyngor a nifer o bartneriaid allweddol eraill i Ŵyl Fach y Fro 2018. |
| *2.14* | | Datblygu'r sîn gerddoriaeth Gymraeg a chelfyddydau drwy gynllun Gigs Bach y Fro | Parhau â'r ddarpariaeth cerddoriaeth a chelfyddydau Gymraeg mewn lleoliadau gwahanol ledled y Fro ac adeiladu ar lwyddiant Gigs Bach y Fro | Cynnal 6 digwyddiad y flwyddyn i oedolion yn y Fro a sicrhau bod o leiaf 60 bobl yn mynychu pob digwyddiad | Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg | Mae Gigs Bach y Fro'n dal i fynd gydag amrywiaeth o nosweithiau cerddoriaeth a chomedi'n cael eu cynnal mewn amryw leoliadau ar draws Bro Morgannwg.<br>Mae'r Fenter bellach yn ddibynnol ar gefnogaeth y Cynllun Noson Allan i ariannu'r artistiaid a'r nod yw cynnal 4 noson gydol y flwyddyn, gyda Gŵyl Fach y Fro'n uchafbwynt yn ein calendr digwyddiadau cerddoriaeth a chelfyddydol. |
| *2.15* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg i blant a phobl ifanc. | Sicrhau bod gwersi nofio ar gael yn Gymraeg i'r holl ysgolion Cymraeg | Yr holl ysgolion Cymraeg i gael cynnig gwersi nofio yn Gymraeg erbyn mis Medi 2017 | Gwasanaethau Hamdden;<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro | Mae gan Ysgolion Cymraeg bellach gyfle i gael gwersi nofio'n Gymraeg drwy drefniant blaenorol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.16* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg | Sicrhau bod gwersi nofio ar gael drwy ddarpariaeth ôl-ysgol yn Gymraeg hyd at o leiaf Lefel 1 | Gwersi nofio hyd at Lefel 1 i fod ar gael yn Gymraeg yn yr holl brif ganolfannau hamdden erbyn Medi 2017 | Gwasanaethau Hamdden;<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Coleg Caerdydd a’r Fro | Gwnaed ymdrechion i ystyried y galw a’r cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ôl-ysgol yn Gymraeg ac mae dosbarthiadau lefel 1 bellach ar gael yng Nghanolfan Hamdden y Barri ar adeg penodol. Cynigir gwersi nofio Cymraeg yn y dyfodol yn ôl y galw. |
| *2.17* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg | Sicrhau bod dosbarthiadau ffitrwydd ar gael yn Gymraeg | Sefydlu o leiaf 2 ddosbarth ffitrwydd Cymraeg erbyn Medi 2018 a chynyddu’r nifer dros y pedair blynedd nesaf | Gwasanaethau Hamdden;<br>Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru | Nid oes galw a brofwyd am ddosbarthiadau ffitrwydd yn Gymraeg. Fodd bynnag mae gweithredwr Hamdden y Cyngor yn fwy na pharod i ddarparu gwersi o’r fath unwaith y sefydlir y ffaith fod galw. |
| *2.18* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg | Cydweithredu â chymdeithasau chwaraeon i sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn Gymraeg mewn gweithgareddau fel gymnasteg, pêl-rwyd, hoci, tennis, rygbi, pêl-droed ac ati | Cytuno ar gynllun gweithredu erbyn Medi 2018 gyda’r prif gymdeithasau chwaraeon i hyfforddi hyfforddwyr Cymraeg a sefydlu clybiau hamdden a gweithgareddau Cymraeg | Cymdeithasau Chwaraeon;<br>Gwasanaethau Hamdden;<br>Urdd Gobaith Cymru | Gwelwyd gwelliannau sylweddol yn nifer y campau a gynigir gan ddatblygu chwaraeon yn Gymraeg. Fodd bynnag, mewn rhai chwaraeon, roedd yn amhosibl dod o hyd i hyfforddwr addas ar yr adeg hon. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.19* | | Sicrhau bod Canolfannau Hamdden yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Penodi Hyrwyddwr Iaith ymhob canolfan hamdden sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol ac yn ei darpariaeth hamdden | Hyfforddi Hyrwyddwyr Iaith erbyn mis Medi 2017 gyd phrosesau monitro'n cael eu sefydlu i werthuso cynnydd ar ddefnydd iaith | Gwasanaethau Hamdden; Urdd Gobaith Cymru; Menter Bro Morgannwg | Codwyd y mater hwn yn y cyfarfodydd Cleient / Contractwr ac mae datrysiad addas yn cael ei drafod ar hyn o bryd. |
| | | | | | | |
| *3.1* | **Gweithgareddau Cymunedol** | Defnyddio technoleg gyfathrebu fel llwyfan gwybodaeth a rhwydweithio i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr | Datblygu 'Echlysur' yn y Fro fel rhwydwaith cyfathrebu sy'n rhoi gwybodaeth i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg am weithgareddau, digwyddiadau, cyfleoedd swyddi ac ati | Ehangu marchnata'r rhwydwaith a phennu targed pum mlynedd i gael 3,000 o danysgrifwyr | Menter Bro Morgannwg; Gwasanaeth Ieuenctid; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru | Mae Menter Bro Morgannwg yn cynnal 'ymgyrchoedd' cyson er mwyn cynyddu'r gronfa ddata digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am y Fenter a chael stondinau mewn nifer o ddigwyddiadau, dosbarthu ffurflenni cofrestru yn ein gweithgareddau, ac ymweld â phob dosbarth Cymraeg i oedolion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Erbyn Mawrth 2018, roedd dros 1,100 o drigolion yn cael gwybodaeth drwy e-bost am ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn y Fro. Mae'r hon yn ffynhonnell |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | rhannu gwybodaeth effeithiol am weithgareddau'r Fenter, ond maent hefyd yn rhannu gwybodaeth/hysbysebion gan bartneriaid Cymraeg eraill yn yr ardal. |
| *3.2* | | Defnyddio technoleg gyfathrebu i gadw mewn cysylltiad â disgyblion ar ôl iddynt adael Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | Sicrhau bod manylion cyswllt cynifer o'r rhai sy'n gadael ysgol â phosibl yn cael eu hychwanegu at y llwyfan rhwydweithio | Casglu manylion cyswllt yn flynyddol | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Menter Bro Morgannwg;<br>Gwasanaeth Ieuenctid | Mae grwpiau anffurfiol Facebook a LinkedIn ar y foment. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ar sut y gall y rhain gael eu datblygu a'u hehangu. |
| *3.3* | | Sicrhau cynhwysiant cymunedol a gwirfoddolwyr wrth gynllunio a threfniadau gweithgareddau Cymraeg | Sefydlu Hyb Cymunedol i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg | Sefydlu Hyb Cymunedol yn y Fro erbyn mis Medi 2018 a'u helpu i drefnu rhaglen flynyddol o weithgareddau / digwyddiadau poblogaidd | Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Cyngor Bro Morgannwg | Yn dibynnu ar argaeledd grantiau addas. |
| *3.4* | Nid yw cyllideb bresennol MBMau yn caniatáu ar gyfer erthyglau wythnosol | Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn rhwydweithiau digidol a phrint | Parhau i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn y Glamorgan Gem sy'n bapur cymunedol print ac ar-lein | Datblygu darpariaeth sy'n cynnwys erthyglau yn y Glamorgan Gem yn y fersiynau print ac ar-lein | Menter Bro Morgannwg;<br>Glamorgan Gem | Sefydlwyd y bartneriaeth hon rhwng Menter Bro Morgannwg a phapur newydd Glamorgan GEM, yn dilyn grant Bwrw Mlaen gan Lywodraeth Cymru yn 2014/15. Mae'r Fenter yn cynhyrchu cylchlythyr dwyieithog 2 dudalen bellach 4 gwaith y flwyddyn – ar ddechrau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | pob tymor ysgol newydd yn codi ymwybyddiaeth am wasanaethau Cymraeg a rhifyn arbennig ar ôl Gŵyl Fach y Fro. |
| *3.5* | | Ystyried y posibiliad o sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Fro | Cynnal astudiaeth o ddichonoldeb i ystyried y potensial o sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Barri | Ceisio arian a chynnal astudiaeth o ddichonoldeb erbyn Medi 2018 | Cyngor Bro Morgannwg; Llywodraeth Cymru; Menter Bro Morgannwg | Eto i fynd i'r afael ag ef |
| | | | | | | |
| *4.1* | **Cymraeg yn y Gweithle** | Y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg | Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg. | Caiff y grŵp Insight ddiweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau a materion cydymffurfiaeth | Cyngor Bro Morgannwg | Datblygwyd cynllun gweithredu ac mae mwyafrif y camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau. |
| *4.2* | | Asesu sgiliau ieithyddol staff | Cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o sgiliau ieithyddol staff a nodi bylchau mewn gwasanaethau sydd ag angen sgiliau dwyieithog i nodi anghenion hyfforddiant | Cwblhau archwiliad a dadansoddiad o sgiliau iaith erbyn Rhagfyr 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Cynhaliwyd archwiliad sgiliau ieithyddol yn 2016 a nododd ymarfer pellach yn 2017 ddefnyddwyr heb gyfrifiadur. Caiff arolwg arall ei gynnal yn 2019. |
| *4.3* | | Cynyddu nifer y staff dwyieithog i ddarparu gwasanaethau'n unol â gofynion Safonau'r | Y Cyngor i recriwtio digon o siaradwyr Cymraeg, buddsoddi mewn | Y Strategaeth Sgiliau Iaith i gael ei hadolygu erbyn Medi 2017 gyda'r | Cyngor Bro Morgannwg | Mae'r Cyngor yn gweithredu'n bositif i hyfforddi mwy o staff a recriwtio staff Cymraeg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg | staff sy'n siarad Cymraeg a chefnogi staff i wella eu sgiliau Cymraeg ar dras pob lefel dysgu iaith | nod o sicrhau erbyn 2021 fod cyfradd y staff dwyieithog yn adlewyrchu'n fras un y Cyngor Sir. | | |
| *4.4* | | Mabwysiadu polisi recriwtio rhagweithiol a fydd yn galluogi'r Cyngor i roi mwy o wasanaethau dwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg | Yr holl swyddi i'w dynodi'n naill ai Cymraeg 'hanfodol' neu 'ddymunol'. Swyddi i'w hystyried yn 'hanfodol' os nad oes siaradwr Cymraeg yn cael ei gyflogi mewn tîm neu os oes angen mwy o gapasiti dwyieithog gan reolwyr. | Strategaeth Sgiliau Iaith ddiwygiedig yn amlinellu'r polisi recriwtio i gael ei llunio erbyn mis Mawrth 2018 | Cyngor Bro Morgannwg | Pob swydd i fod o leiaf yn Gymraeg 'dymunol'. Caiff y strategaeth Sgiliau Ieithyddol eu hadolygu yn 2019. |
| *4.5* | | Rhoi cyfleoedd i staff wella eu sgiliau ieithyddol | Llunio rhaglen o gyrsiau iaith i ddatblygu sgiliau a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn Mehefin 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Cyrsiau ar gael i staff drwy'r cynllun Cymraeg yn y Gweithle. Cyrsiau hefyd ar gael gan DCyyF yn Gymraeg e.e. Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd. |
| *4.6* | | Galluogi staff ac aelodau etholedig i fod yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg gan gynnwys cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y | Trefnu rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chydymffurfiaeth Iaith Gymraeg a cynnwys cwrs sefydlu i staff newydd | Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn Mehefin 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda'r holl aelodau etholedig ym Mai 2017. Cafodd staff ymwybyddiaeth Cymraeg yn Chwefror ac Ebrill 2018. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg | | | | Cynllunnir mwy. |
| *4.7* | | Creu amgylchedd sy'n annog defnydd mwy o'r Gymraeg | Creu adnoddau, deunydd hyrwyddo ac effaith weledol sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ac yn meithrin parch a chefnogaeth i ddwyieithrwydd | Parhaus | Cyngor Bro Morgannwg | Datblygwyd bathodynnau ar e-byst Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr. Siaradwyr Cymraeg yn gwisgo cortynnau gwddf. Arwyddion drwy'r adeilad yn dangos y croesewir pobl i siarad Cymraeg. |
| *4.8* | | Rhoi cymorth rhyngrwyd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Defnyddio'r fewnrwyd i gyfeirio staff at adnoddau iaith defnyddiol e.e. e-ddysgu, gramadeg ar-lein a gwirwyr sillafu, geiriaduron ar-lein ac adnoddau cyfieithu | Cwblhau rhestr o adnoddau ar-lein erbyn Ionawr 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Datblygwyd tudalen i ddysgwyr â dolenni i adnoddau a hefyd dudalen i siaradwyr i egluro eu hawliau. |
| *4.9* | | Rhoi cymorth rhyngrwyd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Datblygu mewnrwyd i gyfeirio staff at gyrsiau Cymraeg a gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned | Cwblhawyd erbyn Hydref 2016 a'i ddiweddaru'n gyson | Cyngor Bro Morgannwg; Dysgu Cymraeg yn y Fro; | Gweler uchod. |
| *4.10* | | Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle | Asesu dewisiadau iaith staff mewn perthynas â gweithrediadau mewnol:- Gohebiaeth; ffurflenni; cwynion; | Asesiad i'w gwblhau erbyn Mawrth 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Gwnaed ymarfer archwilio e.e. arolwg staff Cymraeg i siaradwyr Cymraeg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | adolygiadau perfformiad; anghenion hyfforddiant; polisïau staff; cyfarfodydd mewnol ac ati | | | |
| *4.11* | | Hyrwyddo cynlluniau sy'n dangos yn weledol y croesewir y Gymraeg yn y gweithle | Parhau i ddatblygu mentrau sy'n creu amgylchedd sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg gan staff e.e. bathodynnau, posteri,<br><br>Cortynnau gwddf, Defnyddio logo *Cymraeg* ar e-byst a'r fewnrwyd, llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa | Parhaus | Cyngor Bro Morgannwg | Llofnodion e-byst bellach yn dangos yn glir os yw staff yn siarad neu'n dysgu Cymraeg |
| *4.12* | | Dosbarthu deunydd hyrwyddo'r Gymraeg ar fewnrwyd y staff | Dosbarthu bathodynnau, cortynnau gwddf, posteri, creu arbedwyr sgrîn dwyieithog a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg | Parhaus | Cyngor Bro Morgannwg | Rheolaidd |
| *4.13* | | Datblygu hyder wrth ysgrifennu Cymraeg | Gosod Cysill a Cysgeir (gwirwyr gramadeg a sillafu Cymraeg) ar gyfrifiaduron ac iPads yr holl staff ac aelodau etholedig | Gosod yr holl becynnau cyfrifiadur wedi'u gosod ac ar waith erbyn Rhagfyr 2016 | Cyngor Bro Morgannwg | Gosodwyd ar yr holl gyfrifiaduron yn ôl yr angen |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.14* | | Annog staff ac aelodau etholedig i ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau mewnol ac allanol | Rhoi hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn Gymraeg ac ystyried ymarferoldeb darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewnol | Llunio rhaglen hyfforddiant erbyn Medi 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Eto i fynd i’r afael ag ef |